# Adroddiad Amrywiaeth

yr Ymddiriedolaethau Natur

**2025**



Gwyllt am **Gynhwysiant**
Wild About **Inclusion**

# Cynnwys


Amdanom ni ........ 2

Cyflwyniad ........ 3

Cipolwg ........ 6

Data amrywiaeth ........ 12

Bylchau cyflog ........ 18

Data hyfforddeion ........ 22

Ein gwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ........ 24

Lle i dyfu ........ 38



Fersiwn 1.1 - Rhagfyr 2025

Awdur - Miriam Bentley-Rose

Llun y clawr © Leia Morrison



Hawlfraint © 2025 Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur.

Cedwir pob hawl



Rhif elusen gofrestredig 207238


# Amdanom ni

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn fudiad ar lawr gwlad o bobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Rydyn ni'n credu bod arnom ni angen byd natur a bod byd natur ein hangen ni. Mae gennym ni fwy na 945,000 o aelodau, mwy na 33,000 o wirfoddolwyr, 4,100 o staff a 600 o ymddiriedolwyr. Mae 46 o Ymddiriedolaethau Natur lleol ac mae pob un yn elusen annibynnol wedi'i ffurfio gan bobl yn dod at ei gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwyllt a chenedlaethau'r dyfodol, gan ddechrau gyda ble maen nhw'n byw.

Gyda'i gilydd, mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi ymrwymo i sicrhau adferiad byd natur. Mae hyn er mwyn i bobl allu byw'n agos at natur, gyda thir a moroedd yn llawn bywyd gwyllt. I gyflawni hyn, mae'r Ymddiriedolaethau Natur unigol yn gweithio gyda'i gilydd a gydag elusen ganolog, sef Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur (RSWT). Mae RSWT yn cefnogi datblygiad y mudiad ac yn cryfhau ei lais ar y cyd.



# Cyflwyniad

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn i lawer ohonom ni sy'n gweithio i wneud ein byd yn fwy cynhwysol a theg. Mae rhethreg niweidiol o dramor ac yn y DU yn bygwth troi blynyddoedd o gynnydd yn ddi–werth i wneud ein gweithleoedd a'n mannau cyhoeddus ni'n groesawgar i bawb.

Mae hyn yn rhoi pwysau enfawr ar sefydliadau i leihau a thorri'n ôl ar dimau sy'n gweithio ar adeiladu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CACh) - ond yn hytrach nag ildio i'r pwysau hwn, mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi addo mynd ymhellach ac yn gyflymach. Gan adeiladu ar ein gwaith dros y chwe blynedd diwethaf, rydyn ni'n fwy ymroddedig nag erioed i roi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth galon ein mudiad.

Os ydyn ni am wireddu ein gweledigaeth o fyd naturiol ffyniannus, mae angen i bawb yn y gymdeithas fod yn rhan o'r weledigaeth hon hefyd. Rydyn ni eisiau i gymaint o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i gymryd rhan, teimlo'n gartrefol a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a chael y cyfle i brofi llawenydd bywyd gwyllt yn eu bywydau bob dydd. Mae arnom ni angen i bawb deimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain, bod amrywiaeth yn cael ei dathlu, a bod pob un ohonom ni'n teimlo ein bod ni wedi ein grymuso i chwarae ein rhan wrth greu dyfodol gwell lle mae byd natur yn bwysig.

Ond rydyn ni'n gwybod, ers gormod o amser, bod gormod o bobl wedi teimlo nad yw'r sector natur yn eu cynrychioli nhw. Er bod gennym ni lwybr hir i'w deithio o hyd, rydw i'n obeithiol bod gwaith yr Ymddiriedolaethau Natur yn dechrau newid hyn.

Eleni, mae 17 o Ymddiriedolaethau Natur wedi cynyddu amrywiaeth ethnig eu staff, sy'n golygu bod yr amrywiaeth ethnig ar draws y mudiad wedi cynyddu o 2% i 3%. Mae hyn yn parhau i fod yn bell o ble rydyn ni eisiau bod i adlewyrchu'r amrywiaeth ethnig sy'n bodoli ymhlith y cyhoedd ym Mhrydain, ond rydyn ni'n dechrau symud i'r cyfeiriad iawn o leiaf.

Rydyn ni hefyd yn cefnogi mwy o staff sydd ag anableddau a chyfrifoldebau gofalu, gan roi cyfleoedd i'r bobl yma ragori mewn gweithle sy'n cydnabod eu hanghenion.

Mae datblygu gyrfaoedd wedi bod yn ffocws craidd i'n gwaith ni dros y flwyddyn ddiwethaf, gan roi mwy o gyfleoedd i bawb wneud cynnydd yn y gweithle. Rydyn ni'n falch o adrodd bod 44% o'r staff ar draws ein mudiad ni wedi symud ymlaen i rôl gyda chyflog gwell a / neu rôl uwch, gyda 32% o'r cynnydd yma wedi'i wneud yn ystod y 12 mis diwethaf. Rydyn ni wedi edrych yn benodol ar wella cyfleoedd i bobl ifanc, gan ymgymryd â The Environmental Leadership Programme 2.0 yng ngwanwyn 2025, croesawu lleoliadau Lefelau T a pharhau â'n digwyddiad gyrfa 'Dyfodol Gwyllt' ar ôl ei lansiad hynod lwyddiannus yn 2024.

Rydyn ni wedi cymryd camau breision yn 2025 wrth gefnogi eraill i wneud y mannau maen nhw'n eu rheoli'n fwy croesawgar i fwy o bobl. Mae ein canllaw arfer da, A Space for Everyone, yn darparu cyngor ac adnoddau i unrhyw un sy'n gofalu am dir sydd ar agor i'r cyhoedd fel gwarchodfeydd natur, llwybrau cerdded, llynnoedd ac afonydd - o gynghorau lleol i reolwyr safleoedd hamdden ac elusennau natur i gampysau prifysgol. Rydyn ni eisiau i bawb allu mwynhau bod yn yr awyr agored mewn mannau gwyllt - pwy bynnag sy'n eu rheoli.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2026, byddwn yn parhau i sicrhau bod byd natur yn cael ei warchod a'i adfer mewn ffyrdd sy'n deg ac yn gynhwysol, fel bod pobl a bywyd gwyllt yn gallu elwa. Mae cofleidio cyfiawnder cymdeithasol fel elfen graidd o adferiad byd natur yn allweddol i hyn.

Gall anghyfiawnderau atal pobl rhag teimlo'n gysylltiedig â natur neu rhag mynegi eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hamgylchedd lleol. Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur yn hyrwyddo sicrhau hawliau a chyfleoedd cyfartal, a mynediad cyfartal at adnoddau, i bawb, dim ots pwy ydyn nhw nac o ble maen nhw'n dod.

**Rydyn ni'n gwneud cynnydd, ond mae llawer iawn i'w wneud o hyd. Gobeithio bydd yr adroddiad yma'n rhoi'r wybodaeth sydd arnoch chi ei hangen i helpu'r Ymddiriedolaethau Natur i barhau i symud ymlaen ar y siwrnai yma.**



*Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaethau Natur*

# Gair gan ein Llywydd

Yr argyfyngau natur a hinsawdd yw her fwyaf ein hoes. Rydyn ni'n gwbl ddibynnol ar blaned iach a'i systemau cynnal bywyd er mwyn gallu ffynnu. Wrth i ffiniau planedol barhau i gael eu torri, mae'n bwysicach nag erioed dod o hyd i atebion sy'n cynnwys dulliau amrywiol, ac sy'n adlewyrchu anghenion pob cymuned a diwylliant ar draws Ynysoedd Prydain. Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd, a gyda safbwyntiau wedi'u gwreiddio mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, byddwn yn ddiamau'n cyflymu sgil-effaith y newid sydd ei angen ar ein planed.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn ffederasiwn sydd wedi ymrwymo i adlewyrchu'r gwerthoedd hyn yn ein gweithlu, ac i gefnogi a datblygu mentrau CACh ledled y sector amgylcheddol. Mae creu cymuned amrywiol ac felly ffyniannus yn hanfodol i'r trawsnewid sydd ei angen i adfer byd natur a mynd i'r afael yn effeithiol â newid hinsawdd. Mae'r adroddiad hwn, sydd ei angen yn fawr, yn dangos ein cynnydd ni mewn rhai meysydd, a'r hyn sydd angen ei wella ar frys. Mae adroddiadau o'r fath yn hanfodol os yw trafodaethau cydweithredol a chynlluniau effeithiol, y mae posib eu gweithredu, yn mynd i ddilyn. Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn adlewyrchu maes lle mae'n rhaid i ni, a'r sector amgylcheddol cyfan, newid. Wrth galon y gwaith hanfodol hwn mae pobl, ac angerdd ac ymroddiad ein Rhwydweithiau Staff, wedi'u sbarduno gan fentrau fel 'A Space for Everyone', ein canllaw rheoli tir cynhwysol. Mae cyflawni'r Dyfarniad Arian yn y Talent Inclusion Diversity Evaluation (TIDE) yn garreg filltir bwysig, ond mae hefyd yn ein hatgoffa ni bod rhaid i ni barhau i oresgyn rhwystrau - o gynyddu amrywiaeth ethnig i leihau ein bylchau cyflog i sero.

**Gyda'n gilydd, rydyn ni'n gweithio i wneud yr Ymddiriedolaethau Natur yn fudiad lle mae pawb wir yn perthyn. Mae byd natur i bawb, a rhaid i'n mudiad ni fod i bawb hefyd.**

*Liz Bonnin,*
*Llywydd yr*
*Ymddiriedolaethau Natur*


© MATT BRISTOW

# Cipolwg

**Amrywiaeth ethnig**

Mae ein harolwg amrywiaeth ni'n dangos bod 17 o Ymddiriedolaethau wedi cynyddu amrywiaeth ethnig eu staff eleni, sydd wedi arwain at gynnydd i'r ffederasiwn.

**Bylchau cyflog**

Dyma'r drydedd flwyddyn i ni edrych ar fylchau cyflog niferus.

- Rhywedd
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Anabledd
- Ethnigrwydd

Eleni rydyn ni hefyd wedi adrodd yn wirfoddol ar fwlch cyflog ein gofalwyr.

Mae ein holl fylchau cyflog ni'n parhau i fod islaw'r ffigurau cenedlaethol (lle mae'r rhain ar gael).

**Dyfodol Gwyllt**

Un ffocws craidd eleni oedd cymryd camau i arallgyfeirio ein cyflenwad o dalent. Aeth hyn â ni i'r Big Bang Fair, sef y ffair Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) fwyaf yn y DU. Fe wnaethon ni hefyd gynnal ein hail ddigwyddiad gyrfaoedd ar-lein, gan ddenu cyfanswm syfrdanol o fwy na 2,000 o gofrestriadau.

**Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol**

Eleni, fe wnaethon ni ddatblygu a lansio ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i gryfhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r cynllun yn nodi ein camau gweithredu clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol, meithrin diwylliant cynhwysol sy'n hyrwyddo perthyn, a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb.



© PENNY DIXIE

## *Beth yw Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant?*

Mae **cydraddoldeb** yn ymwneud â thegwch. Mae'n ymwneud â chreu cymdeithas lle gall pawb gymryd rhan a chyflawni eu potensial. Mae cydraddoldeb hefyd yn ymwneud ag edrych y tu hwnt i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'n ymwneud ag edrych ar y byd ehangach, am y siwrneiau mae pobl wedi bod arnyn nhw a pha rwystrau y gallai rhywun eu hwynebu a'r hyn y gallwn ni ei wneud i gael gwared ar y rhwystrau hynny. Drwy edrych ar gydraddoldeb yn y ffordd hon, gallwn gydnabod bod ein hunaniaeth gymdeithasol yn effeithio ar ein profiadau bywyd. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, rywedd, ethnigrwydd, anabledd, oedran, dosbarth cymdeithasol, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd.

Mae **amrywiaeth** yn ymwneud â'n gwahaniaethau ni. Er mwyn bod yn amrywiol, mae angen i ni ddeall ein gilydd a chofleidio sut rydyn ni i gyd yn wahanol a bod gennym ni brofiadau a safbwyntiau gwahanol i'w cynnig. Mae cefnogi amrywiaeth yn ymwneud â dathlu'r gwerth mae'r gwahaniaeth hwn yn ei gynnig, boed yn deillio o hunaniaeth, gwybodaeth, sgiliau, syniadau neu brofiadau rhywun. Drwy amrywiaeth, gallwn ddod yn gryfach drwy gael golwg ehangach ar y byd a thrwy gofleidio ein cymunedau yn well. Mae hyn yn ein helpu ni i ddod yn fwy effeithiol fel mudiad.

Mae **cynhwysiant** hefyd yn ymwneud â'n cymunedau ni, gan gymryd camau i greu lleoedd lle mae pawb yn perthyn. Mae bod yn gynhwysol yn ymwneud â dangos parch at bobl, cael gwared ar rwystrau y gall pobl eu hwynebu wrth geisio cyfrannu, a chreu gofod lle gall pobl gyrraedd eu potensial llawn, heb guddio'r fersiwn gorau ohonyn nhw eu hunain rhag eraill. Mae gan bob un ohonom ni ran i'w chwarae wrth greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn gallu ffynnu.

## *Gwyllt Am Gynhwysiant*

Rydyn ni'n rhoi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth galon yr Ymddiriedolaethau Natur. Rydyn ni eisiau sicrhau bod pawb yn gallu profi llawenydd bywyd gwyllt yn eu bywydau bob dydd.

Rydyn ni'n Wyllt Am Gynhwysiant! Mae hyn yn golygu ysbrydoli, galluogi ac ymgysylltu â phobl o bob cefndir, diwylliant, hunaniaeth a gallu, i newid y byd naturiol er gwell. Mae'n golygu creu gweithleoedd lle mae gwahaniaeth yn cael ei ddathlu, lle gall pawb fod yn nhw eu hunain a ffynnu, yn union fel byd natur.

Ein nod ni yw deall a mynd i'r afael yn well â'r anghydraddoldebau y mae llawer o gymunedau'n eu profi wrth gael mynediad at natur. Rydyn ni'n cydnabod mai'r sector cadwraeth yw un o'r proffesiynau lleiaf amrywiol yn y DU. Mae angen gwella mynediad at yrfaoedd a chyfleoedd addysgol yn sylweddol.

Rydyn ni'n credu bod mynd ati i fod yn Wyllt Am Gynhwysiant yn hanfodol i ddyfodol yr Ymddiriedolaethau Natur, i iechyd a lles ein cymunedau ni ac i fywyd gwyllt.



*Pam rydyn ni'n Wyllt Am Gynhwysiant*

Mae manteision enfawr i fod yn Wyllt Am Gynhwysiant a chofleidio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i'r Ymddiriedolaethau Natur, i'n pobl ni ac i fyd natur.

*Mae arnom ni angen cynhwysiant radical ar bob lefel, felly rydyn ni'n meincnodi CACh ar draws yr Ymddiriedolaethau Natur i'n helpu ni i fonitro ac adrodd ar ein cynnydd.*


© DILYS THOMPSON


© DAVID SHAPIRO


© DILYS THOMPSON


© PETER CAIRNS/2020VISION

**Bydd ein staff ni'n hapusach ac yn iachach. Mae amgylchedd gwaith cynhwysol yn golygu bod pawb yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu, gwneud cynnydd a chael eu cydnabod yn y gwaith.**

**Bydd mwy o bobl yn cael mynediad at fywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol ac yn elwa ohonynt. Bydd pobl o bob rhan o gymdeithas yn cefnogi adferiad byd natur.**

**Bydd perfformiad ein sefydliad yn gryfach. Mae gan sefydliadau amrywiol a chynhwysol fwy o arloesedd, boddhad ymhlith y cyflogeion a chreadigrwydd.**

**Bydd ein sylfaen ni o wirfoddolwyr a chefnogwyr yn cynyddu. Drwy fod yn fwy cynhwysol a pherthnasol i gymunedau amrywiol, byddwn yn denu ac yn ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl.**

*Ein Dull o Weithredu gyda CACh*

**Gweledigaeth CACh ledled y Ffederasiwn**

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi ymgorffori diwylliant o gynhwysiant a gwrth-hiliaeth sy'n cael ei hyrwyddo gan bawb, gyda chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud. Fel ffederasiwn rydyn ni wedi ymrwymo i driniaeth deg a chyfiawn, yn deall anghyfiawnder o fewn y sector amgylcheddol a thu hwnt, ac yn arweinwyr ar gyfer cynhwysiant yn y maes cadwraeth yn gyffredinol.

**Gweledigaeth yr Ymddiriedolaethau Natur**

Bydd ein staff ni'n hapusach ac yn iachach. Mae amgylchedd gwaith cynhwysol yn golygu bod pawb yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu, gwneud cynnydd a chael eu cydnabod yn y gwaith. Bydd mwy o bobl yn cael mynediad at fywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol ac yn elwa ohonynt. Bydd pobl o bob rhan o gymdeithas yn cefnogi adferiad byd natur.

**Pwrpas yr Ymddiriedolaethau Natur**

Ein pwrpas ni yw dod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur a chreu cymdeithas gynhwysol lle mae byd natur yn bwysig.


© RACHEL BRADSHAW

# Ein data amrywiaeth


Rydyn ni'n casglu data amrywiaeth demograffig sylfaenol yn flynyddol. Rydyn ni hefyd yn casglu data i fonitro cadw a chynnydd staff.

Ar gyfer yr arolwg yma roedd gennym ni 2,486 o gyfranogwyr, sy'n gyfradd ddatgelu o 63% gan ein staff a'n hymddiriedolwyr (ni chymerodd Ymddiriedolaeth Natur yr Alban ac Ymddiriedolaeth Natur Ynysoedd Sili ran yn 2025). Oherwydd y nifer bach o ymddiriedolwyr, ffigurau staff yn unig yw'r rhain yn bennaf.





## Rhywedd

Nid oes unrhyw newid wedi bod yn y rhaniadau rhywedd ar gyfer y staff (merched 65% a dynion 33%), gyda'r gweithlu'n parhau i fod yn ferched yn bennaf. Fodd bynnag, i'n hymddiriedolwyr ni mae hyn yn groes i hynny; maen nhw'n 58% o ddynion a 41% o ferched, gyda'r ganran sy'n weddill o ymatebwyr yn nodi eu bod yn anneuaidd, yn rhyngrywiol neu ei bod yn well ganddynt beidio â dweud.





## Ystod oedran

Nid yw ystodau oedran ein staff a'n hymddiriedolwyr ni wedi newid llawer dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydyn ni wedi gweld gostyngiad bychan ymlith y rhai o dan 34 oed ond llai o newid yn yr oedrannau hŷn. Dim ond i 3.5% mae pobl 18 i 24 oed wedi gostwng. Rydyn ni'n parhau i wneud gwaith ychwanegol gyda phobl sy'n troi'n oedolion i geisio mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwnnw. Mae'r grŵp oedran hŷn i'w weld ar ein byrddau ni, gyda 32.4% o'n hymddiriedolwyr dros 65 oed.





## Hanes trawsryweddol

Mae canran y staff sy'n uniaethu fel traws neu sydd â hanes traws yn 0.7%. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (Cymru a Lloegr) o blith y rhai a ddywedodd nad ydynt yn uniaethu fel y rhyw a gofrestrwyd ar eu cyfer adeg eu geni, sef 0.5% (ons.gov.uk).




## *Cyfrifoldebau gofalu*

Yn dilyn tuedd y llynedd, rydyn ni'n gweld cynnydd yn nifer y staff sydd â chyfrifoldebau gofalu, sydd bellach yn 36%. Mae'r graff yn dangos cyfanswm yr ymatebwyr, sydd wedi gostwng yn 2025. Nid oes data cynrychioliadol ar lefel genedlaethol gan ein bod yn cynnwys gofalu am blant yn ein data.




## *Cyfeiriadedd rhywiol*

Mae ein staff LHDT+ (edrychwch uchod am ffigurau trawsryweddol gan ein bod yn adrodd ar wahân) yn parhau i fod yn 15% eleni, sydd eto ymhell uwchlaw'r ystadegyn poblogaeth cenedlaethol (Y DU) o 3.3% (ons.gov.uk).





## *Ethnigrwydd*

Mae ein ffigurau staff wedi newid ychydig ers y llynedd. Gyda chynnydd o 1%, er ei fod yn parhau i fod ymhell islaw ble rydyn ni'n anelu at fod, mae'n symud i'r cyfeiriad cywir.


Mae gennym ni hefyd 17 o Ymddiriedolaethau Natur unigol sydd wedi cynyddu amrywiaeth ethnig eu staff o gymharu â'r llynedd.

Rydyn ni'n parhau i weithio ar gyflymder ar gydraddoldeb hiliol yn y gweithlu a gallwch ddysgu mwy am ein gwaith parhaus ni yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.




## *Crefydd*

Er bod nifer y crefyddau a gynrychiolir ymhlith ein staff ni wedi cynyddu, y ddau grŵp mwyaf o hyd yw Dim crefydd neu gred a Christnogaeth. Bellach mae gennym ni 28% o'n staff sydd â chrefydd heblaw Cristnogaeth, sy'n 18%.




*Anabledd*

Ar gyfer y categori hwn rydyn ni'n cynnwys y canlynol:

- Deheurwydd (er enghraifft, codi a chario gwrthrychau, defnyddio bysellfwrdd)
- Clyw (er enghraifft, byddar neu glyw rhannol)
- Dysgu, dealltwriaeth neu ganolbwyntio
- Cof
- Iechyd meddwl
- Symudedd (er enghraifft, cerdded pellteroedd byr neu ddringo grisiau)
- Cymdeithasol neu ymddygiadol (er enghraifft, yn gysylltiedig â niwroamrywiaeth, gan gynnwys awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, a dyslecsia)
- Stamina, anadlu neu flinder
- Golwg (er enghraifft, dall neu olwg rhannol)
- Gwell gen i beidio â dweud
- Arall.

Mae nifer y staff anabl sy'n gweithio i ni yn 31% bellach, sy'n uwch na'r cyfartaledd o 17.8% yng Nghymru a Lloegr (ons.gov.uk).

Anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor




*Cadw a chynnydd*

Rydyn ni'n gwybod bod staff yn aros ac yn datblygu o fewn ein ffederasiwn yn ddangosydd allweddol o foddhad yn y gwaith. Mae cyfanswm o 44% o staff wedi datblygu i rôl gyda chyflog gwell a / neu rôl uwch. Mae 32% o'r cynnydd yma wedi bod yn ystod y 12 mis diwethaf.

Aethom ati i ofyn rhai cwestiynau diwylliant i'n staff* hefyd ac fe wnaethon nhw raddio eu hymateb i ddatganiadau allan o 10 (gyda 10 yn uchaf), fel isod.

O fewn yr ymatebion hyn, mae rhai meysydd rydyn ni'n awyddus i'w targedu ar gyfer gwelliant ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn benodol, rydyn ni eisiau gweld beth allwn ni ei wneud i sicrhau bod mwy o aelodau o staff, ymddiriedolwyr a hyfforddeion yn teimlo mwy o gysylltiad â'r Ymddiriedolaethau Natur.

* Ymatebodd 2,243 o aelodau o staff, 204 o ymddiriedolwyr a 39 o hyfforddeion.

| Cwestiwn | Aelod o staff (cyfartaledd allan o 10) | Ymddiriedolwr (cyfartaledd allan o 10) | Hyfforddai (cyfartaledd allan o 10) |
|---|---|---|---|
| Pa mor gysylltiedig ydych chi'n teimlo â ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Natur? | 6.5 | 7.1 | 6.5 |
| Pa mor bwysig yw hi i chi deimlo'n gysylltiedig â ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Natur? | 7.4 | 7.8 | 7.1 |
| Rydw i'n teimlo bod fy Ymddiriedolaeth Natur i'n lle cynhwysol i weithio i bob cydweithiwr / ymddiriedolwr. | 8.1 | 8.6 | 8.0 |
| Rydw i'n gallu bod yn fi fy hun yn llawn yn y gwaith / yn fy rôl fel ymddiriedolwr a theimlo fy mod i'n cael fy nghlywed yn fy rôl. | 8.1 | 9.1 | 7.8 |
| Rydw i'n teimlo fy mod i'n perthyn i'r Ymddiriedolaethau Natur. | 8.1 | 8.7 | 7.8 |
| Rydw i'n credu bod yr arweinwyr yn cefnogi ac yn hyrwyddo diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n perthyn. | 7.8 | 8.9 | 8.0 |
| Rydw i'n credu bod gwerthoedd yr Ymddiriedolaethau Natur yn cyd-fynd â fy ngwerthoedd personol i fy hun. | 8.5 | 9.0 | 8.3 |
| Rydw i'n teimlo'n gyfforddus yn rhoi adborth ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn. | 8.0 | 8.8 | 7.5 |
| Rydw i'n codi fy llais pan rydw i'n gweld hiliaeth ar waith ac yn helpu i greu mudiad gwirioneddol wrth-hiliol. | 8.5 | 8.8 | 8.4 |
| Rydw i'n credu bod pobl yn cael eu trin gyda thegwch a pharch. | 8.2 | 9.1 | 8.4 |
| Rydw i'n deall sut mae fy rôl i'n cyfrannu at gyflawni strategaeth fy Ymddiriedolaeth Natur. | 8.7 | 9.3 | 8.1 |
| Byddwn yn argymell fy Ymddiriedolaeth Natur fel lle gwych i weithio ynddo. | 8.3 | 9.1 | 8.3 |

# Ein bylchau cyflog

Mae bylchau cyflog yn edrych ar y gwahaniaeth mewn cyflog rhwng grwpiau o bobl sy'n gwneud swyddi tebyg. Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi penderfynu adrodd yn wirfoddol ar ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau (rhwng dynion a merched); ein bwlch cyflog anabledd (rhwng staff anabl a staff nad ydynt yn anabl); ein bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol (rhwng staff heterorywiol / strêt a staff LHDTC+); a'n bwlch cyflog ethnigrwydd (rhwng ethnigrwydd gwyn ac ethnigrwydd lleiafrifol gan gynnwys pobl o liw). Yn newydd ar gyfer 2025, rydyn ni hefyd wedi adrodd ar fwlch cyflog ein gofalwyr ni, rhwng y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r rhai heb gyfrifoldebau o'r fath.

Rydyn ni'n cymharu'r cyflog cymedrig (cyfartaledd) fel ein bod yn gallu cymharu â'r sefydliadau hynny lle mae adrodd yn orfodol.

Mae'r canlyniadau'n cwmpasu'r staff yn unig (nid ymddiriedolwyr na hyfforddeion). Ymatebodd cyfanswm o 2,243 o gyflogeion ac mae rhai ymatebion i gwestiynau wedi'u grwpio neu'n canolbwyntio ar y grwpiau lle darparwyd set ddata ddigon mawr.


## *Rhywedd*

Dim ond ymatebion gan gyflogeion a ymatebodd gyda'u rhywedd fel menyw neu ddyn sydd yn y data isod. Mae hyn oherwydd bod nifer yr ymatebion mewn categorïau eraill yn rhy fach ar gyfer dadansoddiad cadarn.

Mae'r llinell sylfaen ar gyfer yr holl staff yn dangos bod 65% yn ferched a 33% yn ddynion. Yn gyffredinol, mae'r merched ar gyfartaledd yn ennill 4.6% yn llai na'r dynion. Mae'r bwlch cyflog cenedlaethol (Y DU) rhwng y rhywiau yn 7% ar hyn o bryd (ons.gov.uk).

| Blwyddyn | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|
| Bwlch cyflog cymedrig | 8.2% | 5.6% | 4.6% |

Mae'r chwarteli wedi'u rhannu yn ôl swydd yn y ffederasiwn, gyda'r chwartel isaf wedi'i ddiffinio fel swyddi dan hyfforddiant a lefel mynediad, a'r chwartel uchaf wedi'i ddiffinio fel prif weithredwyr a chyfarwyddwyr.





## *Anabledd*

Dywedodd bron i draean o'r staff (30%) fod ganddynt o leiaf un anabledd.

Mae ein bwlch cyflog anabledd yn 9.4%, tra mae'r bwlch cyflog anabledd cenedlaethol (Y DU) yn 12.7% (ons.gov.uk), sy'n dangos ein bod ymhell islaw'r lefel genedlaethol.

| Blwyddyn | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|
| Bwlch cyflog cymedrig | 5.1% | 7.1% | 9.4% |

Mae'r chwarteli wedi'u rhannu yn ôl swydd yn y ffederasiwn, gyda'r chwartel isaf wedi'i ddiffinio fel swyddi dan hyfforddiant a lefel mynediad, a'r chwartel uchaf wedi'i ddiffinio fel prif weithredwyr a chyfarwyddwyr.






© TOM MARSHALL

## *Cyfeiriadedd rhywiol*

Mae ein bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol yn -1.4%. Nid oes ystadegyn cenedlaethol dibynadwy ar gyfer hyn ar hyn o bryd.

| Blwyddyn | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|
| **Bwlch cyflog cymedrig** | 8.2% | 7.7% | -1.4% |

Mae'r chwarteli wedi'u rhannu yn ôl swydd yn y ffederasiwn, gyda'r chwartel isaf wedi'i ddiffinio fel swyddi dan hyfforddiant a lefel mynediad, a'r chwartel uchaf wedi'i ddiffinio fel prif weithredwyr a chyfarwyddwyr.





## *Ethnigrwydd*

Mae ein bwlch cyflog ethnigrwydd yn 7.2%. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ffigurau cenedlaethol dibynadwy ar gyfer bylchau cyflog ethnigrwydd. Rydyn ni'n defnyddio data'r llynedd fel llinell sylfaen ac yn monitro ein data yn flynyddol wrth symud ymlaen.

| Blwyddyn | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|
| **Bwlch cyflog cymedrig** | 5.1% | 1.2% | 7.2% |

Mae'r chwarteli wedi'u rhannu yn ôl swydd yn y ffederasiwn, gyda'r chwartel isaf wedi'i ddiffinio fel swyddi dan hyfforddiant a lefel mynediad, a'r chwartel uchaf wedi'i ddiffinio fel prif weithredwyr a chyfarwyddwyr.




## *Gofalwyr*


Dyma ein blwyddyn gyntaf o fesur y data yma. Gan ein bod yn gweld nifer y staff sydd â chyfrifoldebau gofalu'n cynyddu, fe wnaethon ni benderfynu adrodd ar fwlch cyflog ein gofalwyr ni ac mae hyn yn cynrychioli unrhyw staff sydd â chyfrifoldeb gofalu, gan gynnwys gofalu am blant.

| Blwyddyn | 2025 |
|---|---|
| **Bwlch cyflog cymedrig** | -2.7% |

Mae bwlch cyflog ein gofalwyr ni'n -2.7%, sy'n dangos bod staff sy'n ofalwyr yn ennill 2.7% ar gyfartaledd yn fwy na staff heb gyfrifoldebau gofalu.

Mae cynrychiolaeth dda o ofalwyr ar bob lefel o'r ffederasiwn hefyd.

Mae'r chwarteli wedi'u rhannu yn ôl swydd yn y ffederasiwn, gyda'r chwartel isaf wedi'i ddiffinio fel swyddi dan hyfforddiant a lefel mynediad, a'r chwartel uchaf wedi'i ddiffinio fel prif weithredwyr a chyfarwyddwyr.






© ADRIAN CLARKE


# Data hyfforddeion

Eleni, rydyn ni wedi cyhoeddi ystod ehangach o ddata cynlluniau hyfforddi. Rydyn ni'n deall pwysigrwydd ein hyfforddeion a phwysigrwydd darparu profiad gwaith yn ein sector i alluogi pobl ifanc i'w ystyried fel dewis gyrfa posibl. Gobeithio bydd y cynlluniau hyfforddi yma'n rhoi profiad i gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o'r gyrfaoedd sydd ar gael yn y sector amgylcheddol.


Nid oes unrhyw hyfforddeion wedi symud ymlaen nac wedi gadael eu cynllun hyfforddi yn ystod y 12 mis diwethaf ond mae 7.7% wedi cael eu hymestyn.

Dim ond 53.8% o hyfforddeion sy'n gweithio'n llawn amser ac nid oes yr un ohonyn nhw ar gontractau parhaol.


Trawsryweddol





Cyflwr iechyd hirdymor.





Cyfeiriadedd rhywiol




Hyfforddeion wedi'u gwasgaru yn ôl oedran




Rhywedd yr hyfforddeion








© LEIA MORRISON

# Ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn yr Ymddiriedolaethau Natur, rydyn ni wedi addo rhoi pobl wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni'n gwybod, os ydyn ni eisiau llwyddo i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, bod angen i bawb weithredu dros fyd natur – ac rydyn ni wir yn golygu pawb.

Eleni, rydyn ni wedi parhau i weld gwelliant a chynnydd ar draws llawer o nodweddion amrywiaeth. Rydyn ni wedi cynyddu proffil ein staff sy'n cynrychioli cefndiroedd ethnig lleiafrifol, er ein bod yn ymwybodol nad ydyn ni eto lle rydyn ni eisiau bod. Rydyn ni'n canolbwyntio ar newid hirdymor a systemig, o'n prosesau recriwtio hyd at gadw staff a chefnogaeth gyffredinol yn y gweithle.

Mae gan ein haelodau o staff LHDT+ gynrychiolaeth fawr, gyda 15% o'r gweithlu'n uniaethu yn y demograffig hwn; mae hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd y DU o 3.3%. Rydyn ni hefyd yn rhagori ar gyfartaledd y DU o 17.8% o aelodau o staff ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, gan fod 31% o'n gweithlu ni'n dod o dan y categori hwn.

Fodd bynnag, rydyn ni – fel eraill – yn parhau i wynebu'r rhethreg negyddol a gwrth-CACh sydd ar gynnydd. Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi ein tîm CACh cenedlaethol ac i chwilio'n weithredol am ffyrdd o weithio'n galetach fyth yn y maes hwn. Nawr, yn fwy nag erioed, rhaid i ni ddyfalbarhau a bod yn llais uwch i'r grwpiau lleiafrifol yn ein cymdeithas.

## *Ein hadnoddau cyhoeddus newydd*

Rydyn ni bob amser yn awyddus i rannu ein gwaith gydag eraill ac eleni lansiwyd dogfen i'r cyhoedd, A Space for Everyone: a good practice guide. Arweiniodd yr Ymddiriedolaethau Natur y gwaith o'i chreu gyda sefydliadau eraill ac mae'n cynnwys astudiaethau achos ac argymhellion ar gyfer unrhyw berchnogion tir sy'n agor eu gofod natur i'r cyhoedd. Mae'n edrych ar yr holl nodweddion gwarchodedig ac yn tynnu sylw at y newidiadau mwyaf effeithiol y gall perchnogion a rheolwyr tir eu gwneud i sicrhau bod eu gofod yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb.

Ochr yn ochr â'r canllaw hwn, rydyn ni hefyd wedi lansio'n gyhoeddus ein templed Know Before You Go sy'n helpu perchnogion a rheolwyr tir i roi gwybodaeth ddefnyddiol i ymwelwyr posibl cyn iddyn nhw deithio i ofod natur. Mae'r templed yma'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch a yw lleoliadau'n gwbl hygyrch ac yn helpu i roi cyflwyniad i ymwelwyr posibl i'r gofod, sy'n arbennig o bwysig i'r rhai sydd wedi teimlo eu bod wedi'u heithrio o lefydd o'r fath yn y gorffennol.











© ULSTER WILDLIFE



© FERGUS COYLE



© BRONI LLOYD-EDWARDS

## *The Environmental Leadership Programme*

Mae The Environmental Leadership Programme 2 (ELP2) yn cynrychioli datblygiad allweddol yng ngwaith yr Ymddiriedolaethau Natur gyda phobl ifanc. Dan arweiniad Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Swydd Amwythig ac wedi'i chyllido gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae'r rhaglen yn cefnogi pobl 18 i 25 oed o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol a heb wasanaethau digonol ledled Gorllewin Canolbarth Lloegr i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth amgylcheddol a chysylltiad â byd natur, gan greu llwybrau i yrfaoedd Ymddiriedolaethau Natur a gweithredu amgylcheddol.

Arweiniwyd The Environmental Leadership Programme yn wreiddiol gan yr elusen datblygu ieuenctid, UpRising. Ym mis Chwefror 2025, trosglwyddodd y rhaglen gyda'i thîm cysylltiedig o UpRising i'r Ymddiriedolaethau Natur, gan ddod â'u harbenigedd hanfodol yn y sector ieuenctid i'r mudiad. Helpodd hyn i symud y rhaglen o fod yn brosiect annibynnol i fod yn fenter llawer mwy integredig, sy'n adeiladu mudiad.

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n recriwtio cyfranogwyr gwirioneddol amrywiol ar gyfer y rhaglen hon, rydyn ni wedi cynnal ymchwil sydd wedi nodi rhwystrau hollbwysig i gyfranogiad pobl ifanc yn y sector gwyrdd. Mae gostyngiad o 73% wedi bod yng ngwariant gwasanaethau ieuenctid, sy'n creu bylchau mewn seilwaith. Mae 68% o bobl ifanc yn dweud bod ansicrwydd ariannol yn eu hatal rhag cymryd rhan. Pan rydyn ni'n gofyn i bobl ifanc am eu prif gymhellion, mae 30% yn ymateb gan nodi sefydlogrwydd ariannol fel elfen allweddol ac mae boddhad gyrfa yn bwysig i 27%. Dim ond 11% sy'n nodi achosion amgylcheddol fel eu prif gymhelliant. Mae hyn yn dangos yn glir bod angen i ni wneud mwy i gwrdd â phobl ifanc lle maen nhw a gwneud byd natur a'r mudiad natur yn fwy perthnasol iddyn nhw.

Mae'r rhaglen wedi mynd ati i greu rhwydweithiau y tu hwnt i'r sector amgylcheddol. Eleni cafwyd sgyrsiau traws-sector gyda Gwasanaeth Ieuenctid Birmingham, Cultures in Unity, Canolfan Gymunedol Tsieineaidd Birmingham a Hindu Climate Action. Denodd digwyddiad allanol ym mis Hydref 2025 22 o fynychwyr, gan gynnwys naw o Ymddiriedolaethau Natur rhanbarthol, gyda'r nod o rannu dysgu a chefnogi ein gilydd i wella ein darpariaeth i bobl ifanc. Mae gweithdai 'Green Pathways' wedi cael eu datblygu hefyd i gyflwyno gwybodaeth a chysylltiad o'r ffederasiwn i grwpiau ehangach o bobl ifanc y tu allan i'r rhai sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhaglen, gyda thri wedi'u cyflwyno hyd yn hyn.

Mae adborth y cyfranogwyr yn dangos effeithiolrwydd y rhaglen. Yn y ddau grŵp sydd wedi cwblhau, dangosodd y cyfranogwyr ddatblygiad sylweddol o ran hyder, rhwydweithiau, sgiliau a gwybodaeth yn unol â Damcaniaeth Newid y rhaglen. Gwelwyd y gwaith o lunio rhwydweithiau proffesiynol yn gwella 54% ym Mlwyddyn 1 a 29% ym Mlwyddyn 2, gyda'r cyfranogwyr yn uniaethu fwyfwy fel arweinwyr. Gwellodd yr hyder mewn gyrfaoedd gwyrdd a dealltwriaeth o lwybrau'r sector yn sylweddol. Dangosodd cysylltiad â byd natur enillion mesuradwy hefyd, gyda'r ddau grŵp yn cynyddu eu cysylltiad ar draws pob mesur Mynegai Cysylltiad Natur.

Ers cymryd rhan yn y rhaglen ac ymuno â'r rhwydwaith cyn-gyfranogwyr sy'n cynyddu, mae sawl cyfranogwr wedi dechrau gwirfoddoli gydag Ymddiriedolaethau Natur lleol. Mae rhai cyfranogwyr wedi mynd ymlaen i wasanaethu ar fyrddau'r Ymddiriedolaethau Natur bellach ac mae un wedi dod yn gyd-gadeirydd Cymuned Ymarfer yr Ymddiriedolwyr Gyrfa Gynnar. Wrth i ELP2 integreiddio i RSWT a symud i mewn i flynyddoedd tri i bedwar, mae mewn sefyllfa i gefnogi ymarfer ar draws mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur, gan gynyddu profiadau bywyd pobl ifanc i ddatblygu arferion recriwtio ac ymgysylltu amrywiol mwy effeithiol.

*Naturally Connected Young People*

Ar ddiwedd 2024, daeth arweinwyr addysg ac ymgyrchu dros ieuenctid o 36 o Ymddiriedolaethau Natur at ei gilydd i greu gweledigaeth o sut gallwn ni weithio'n fwy cyson gyda phobl ifanc 11 i 16 oed, yn yr ysgol ac fel rhan o'u cymunedau lleol. Gyda'n gilydd, fe wnaethon ni gyd-ddatblygu ein cynllun strategol ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc 11 i 16 oed, o'r enw 'Building the Bridge', sy'n cwmpasu'r pum mlynedd nesaf o uchelgeisiau sy'n gysylltiedig â chyflawni, llywodraethu a pholisi ar gyfer yr Ymddiriedolaethau Natur.

I helpu i gyflawni'r cynllun hwn, o hydref 2025 i fis Mai 2028, byddwn yn cyflwyno rhaglen ledled y DU o brosiectau cysylltiad â natur i bobl ifanc oedran uwchradd ar hyd a lled y DU, gan gynnwys pob un o'r 46 o Ymddiriedolaethau Natur. Enw'r rhaglen fydd Naturally Connected Young People.

Wedi'i chyllido gan Ymddiriedolaeth Prudence, bydd y rhaglen gwerth £2 filiwn yma'n galluogi Ymddiriedolaethau Natur i gynyddu eu darpariaeth o brosiectau hygyrch a chynaliadwy ar gyfer pobl ifanc 11 i 16 oed yn gyflym. Bydd yn trochi cyfranogwyr ym myd natur ac yn datblygu llwybrau personol o gysylltiad â natur sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles, gyda'r manteision yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod a gyllidir. Bydd yn caniatáu i Ymddiriedolaethau Natur sydd â'r proffiad a'r cyrhaeddiad mwyaf yn y maes hwn gefnogi ac arwain eu cydweithwyr ledled y DU i efelychu, adeiladu neu ymestyn eu modelau cyflwyno gyda grwpiau newydd o bobl ifanc, gan flaenoriaethu'r rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd wedi'u gwthio i'r cyrion.

Bydd Naturally Connected Young People yn arbenigo mewn cefnogi pobl ifanc i gysylltu â byd natur mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr ac yn teimlo'n ddiogel iddyn nhw. Gan weithio ar draws ysgolion uwchradd a grwpiau cymunedol, bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar gyrraedd pobl ifanc sydd, yn draddodiadol, yn wynebu'r rhwystrau mwyaf o ran cael mynediad at fyd natur, fel: plant o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, plant LHDTC+, plant sy'n derbyn gofal, mudwyr gorfodol gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid a phlant sy'n wynebu tlodi.

Bydd y rhaglen yn cael ei gwerthuso'n allanol, gyda sbardun allweddol i ddefnyddio'r straeon a'r canfyddiadau o'r cyflwyno fel sail i fentrau polisi allweddol ynghylch iechyd meddwl plant a'r anghydraddoldebau cynyddol sy'n ymwneud â mynediad at lecynnau naturiol o ansawdd da i bawb, dim ots beth yw eu cefndir.


© RACHEL BRADSHAW


© SARAH DAVISON


© PENNY DIXIE



© SARAH DAVISON



© MATTHEW ROBERTS



© DARREN ROBINSON

## *Amrywiaeth, cyfiawnder cymdeithasol a'r Ymddiriedolaethau Natur*

Yn yr Ymddiriedolaethau Natur, rydyn ni'n gwybod nad dim ond syniad bach neis yw cyfiawnder cymdeithasol, ond elfen hanfodol i gyflawni ein gwerthoedd a'n nodau. Mae'n golygu sicrhau bod byd natur yn cael ei ddiogelu a'i adfer mewn ffyrdd sy'n deg ac yn gynhwysol, fel bod pobl a bywyd gwyllt yn gallu elwa. A phan mae pobl yn ymwneud â'u llecynnau naturiol lleol, maen nhw'n eu gwerthfawrogi nhw ac yn teimlo'n ddiogel ynddyn nhw - ac maen nhw'n gweithio i'w diogelu, gan sicrhau cynaliadwyedd adferiad byd natur. Dyma pam rydyn ni'n gweithio i wneud ein mudiad yn fwy amrywiol a chynhwysol - fel ein bod yn fwy cyfiawn yn gymdeithasol.

Mae cyfiawnder cymdeithasol yn ymwneud â sicrhau bod gan bawb hawliau a chyfleoedd cyfartal a mynediad cyfartal at adnoddau, dim ots pwy ydyn nhw nac o ble maen nhw'n dod. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bobl yn wynebu rhwystrau annheg yn systematig, o dlodi i wahaniaethu, a diffyg mynediad at ofod naturiol hyd yn oed. Gall yr anghyfiawnderau yma atal pobl rhag teimlo'n gysylltiedig â byd natur neu rhag cael lleisio eu barn mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hamgylchedd lleol.

Mae angen clywed lleisiau pobl a phan fyddant yn siarad am newidiadau, mae angen iddyn nhw weld y newidiadau hynny'n digwydd. Mae hyn yn rhan hanfodol o gyflawni cyfiawnder cymdeithasol. Rydyn ni'n defnyddio dull o'r enw trefnu cymunedol, sy'n dechrau drwy fynd allan i gymunedau a gwrando arnyn nhw. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu clywed, yn teimlo eu bod nhw'n perthyn a chydnabod bod posib iddyn nhw wneud gwahaniaeth. Rydyn ni'n galw hyn yn 'Tîm Gwyllt'. Pan fydd pobl yn teimlo'n rhan o rywbeth, maen nhw'n fwy tebygol o gymryd camau i warchod y llefydd a'r bywyd gwyllt sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae'r dull yma o weithredu'n cynnwys edrych ar bwy sydd â phŵer a phwy sy'n cael penderfynu beth sy'n digwydd i dir, dŵr a bywyd gwyllt. Ni ddylai cadwraeth fod yn rhywbeth sy'n cael ei wneud i gymunedau; dylai gael ei wneud gyda nhw. Pan mae gan bobl lais a phan maen nhw'n teimlo perchnogaeth dros eu hamgylchedd lleol, maen nhw'n fwy tebygol o ofalu amdano a siarad drosto. Mae hynny'n llesol i fyd natur ac yn llesol i bobl. Un o gryfderau'r Ymddiriedolaethau Natur yw ein bod ni wedi ein gwreiddio mewn cymunedau lleol, sy'n ein helpu ni i greu'r cysylltiadau cryf yma.

Gallai ein gwaith ni yn y dyfodol fynd y tu hwnt i'r DU hyd yn oed. Mae gwybod bod anghyfiawnder amgylcheddol a chymdeithasol yn fater byd-eang, yn enwedig mewn lleoliadau sydd wedi'u gwladychu neu eu gwthio i'r cyrion, yn hanfodol er mwyn i'n gwaith ni fod yn llwyddiannus. Rydyn ni'n dysgu o'n gwaith ni gyda chymunedau yn y DU i helpu i lunio ein hymdrechion rhyngwladol. Mae hynny'n golygu defnyddio'r sgiliau rydyn ni wedi'u dysgu o'n dull trefnu cymunedol, sef Tîm Gwyllt. Mae angen i ni barhau i wrando'n astud ar leisiau cymunedol, herio systemau annheg, a chefnogi atebion dan arweiniad pobl leol.

Mae ein strategaeth ni bellach yn cynnwys rhoi pobl wrth galon adferiad byd natur. Drwy gynnwys cyfiawnder cymdeithasol yn ogystal â chyfiawnder amgylcheddol ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, rydyn ni'n gweithio tuag at ddyfodol lle gall cymunedau a bywyd gwyllt ffynnu.

# Rhwydweithiau staff

Mae gennym ni chwe rhwydwaith staff, sydd ar gael i bob cyflogai ar draws y ffederasiwn. Maen nhw'n cefnogi cyfanswm o fwy na 500 o staff ar hyn o bryd. Eleni, cynhaliodd ein rhwydweithiau staff ni wahanol ddigwyddiadau, o ddathlu mis hanes LHDTC+ i Wythnos Ryngwladol y Merched a Mis Hanes Pobl Dduon. Mae ein rhwydweithiau staff ni'n lle diogel i staff drafod unrhyw feddyliau a rhannu profiadau bywyd. Fe wnaethon ni gymryd rhan mewn mwy na 18 o ddigwyddiadau Pride eleni, gan hyrwyddo'r Ymddiriedolaethau Natur a'r rhwydwaith staff ym mhob un o'r digwyddiadau.

Mae ein chwe rhwydwaith ni'n eithriadol bwysig oherwydd eu bod yn cyfrannu at wneud y sefydliad yn lle mwy cynhwysol, lle mae gan gydweithwyr y lle a'r amser i gyfarfod yn rheolaidd, teimlo'n ddiogel, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn y gwaith. Mae hefyd yn gyfle i leisiau gael eu clywed ac i ddod o hyd i ffyrdd gwell o herio anghydraddoldebau gyda'n gilydd. Rydyn ni eisiau sicrhau bod pobl yn gallu bod yn nhw eu hunain yn llawn yn y gwaith a'u bod yn gallu cysylltu â chydweithwyr sydd â phrofiadau tebyg.

### *Nature For All*

Mae Nature for All yn rhwydwaith ar gyfer cyflogeion sydd ag anableddau: nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar fywyd bob dydd rhywun. Nod y rhwydwaith yw darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, dysgu oddi wrth ei gilydd a chodi ymwybyddiaeth ynghylch cynnwys anabledd a hygyrchedd yn y gweithle a'r tu allan iddo.

### *Out For Nature*

Mae'r rhwydwaith yma ar gyfer cyflogeion sy'n uniaethu fel rhan o'r gymuned LHDTC+ (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Anneuaidd, Cwiar ac yn Cwestiynu). Pwrpas y rhwydwaith yma yw darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, codi ymwybyddiaeth o hanes LHDTC+ a'r brwydrau parhaus a threfnu digwyddiadau i ddathlu cyflawniadau'r gymuned LHDTC+.


© ELEANOR CHURCH

### *Colours Of Nature*

Mae Colours of Nature yn rhwydwaith i bobl o liw. Mae'r aelodau'n defnyddio'r cyfarfodydd fel lle diogel yn seicolegol i rannu profiadau cadarnhaol a negyddol yn ogystal â rhannu sgyrsiau cyffredinol a chyfleoedd rhwydweithio.

### *Women In Nature*

Mae Women In Nature yn rhwydwaith i ferched o bob cefndir, gan gynnwys merched traws a phobl anneuaidd. Pwrpas y rhwydwaith yw ymgynnull i rannu profiadau, darparu arweiniad, gwella cynhwysiant a chysylltu merched ar draws pob Ymddiriedolaeth Natur.


© ABBEY WILKINSON

### *Next Gen Nature*

Mae Next Gen Nature yn rhwydwaith ar gyfer cyflogeion ifanc (o dan 32 oed - dewiswyd y terfyn yma gan y rhwydwaith i gynnwys y ddwy flynedd a 'gollwyd' i'r pandemig). Nod y rhwydwaith yma yw darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, rhannu profiadau, darparu arweiniad i bobl ifanc eraill ymuno â'r sector cadwraeth a sicrhau bod lleisiau ifanc yn cael eu cynrychioli a'u gwerthfawrogi ar draws pob Ymddiriedolaeth Natur.

### *Nature In Mind*

Mae'r rhwydwaith yma ar gyfer cyflogeion sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl. Pwrpas y rhwydwaith yw ymgynnull i rannu profiadau, codi ymwybyddiaeth o achosion iechyd meddwl a gwella arferion cynhwysiant a lles ar draws pob Ymddiriedolaeth Natur.


© LEIA MORRISON

*TIDE*

Bob blwyddyn, mae Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur yn cynnal Talent Inclusion Diversity Evaluation (TIDE) Onvero. Roedd llawer o newidiadau i TIDE ar gyfer eleni, gan gynnwys pynciau newydd fel hyfforddiant. Mae'n parhau i fod yn asesiad croestoriadol gwerthfawr a phob blwyddyn rydyn ni'n derbyn adroddiad sy'n awgrymu pa feysydd gwaith y mae angen canolbwyntio arnynt ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Eleni rydyn ni'n falch o ddweud bod ein cynnydd CACh ni wedi ennill Dyfarniad Arian TIDE i ni am yr ail flwyddyn. Mae'r dyfarniadau efydd, arian ac aur yn cael eu cyflwyno i'r sefydliadau sy'n sgorio uchaf bob blwyddyn.

Onvero
TIDE Silver 2025













*Dyfodol Gwyllt - arallgyfeirio ein cyflenwad o dalent*

***Y Big Bang Fair 2025***

Eleni, fe wnaethon ni fynychu'r Big Bang Fair yn yr NEC, ein digwyddiad gyrfaoedd cyntaf a'r ffair Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) fwyaf yn y DU. Roedd 20,379 o blant 11 i 14 oed yno dros y tridiau ac roedd gennym ni giw cyson yn ein stondin. Fe ymunodd Ymddiriedolaeth Natur Swydd Hamp ac Ynys Wyth ac Ymddiriedolaeth Natur Swydd Warwick â'r tîm cenedlaethol a chynnal tri gweithgaredd gwyddoniaeth ymarferol.

## *Ein digwyddiad 'Gyrfaoedd gyda'r Ymddiriedolaethau Natur'*

Fel rhan o gynyddu ein hamrywiaeth ethnig, rydyn ni wedi bod yn gweithio ar sicrhau ein bod ni'n cyrraedd cronfa lawer ehangach o ymgeiswyr posibl ar gyfer ein swyddi. Mae rhan o hyn yn cynnwys gweithio gyda phobl ifanc sy'n penderfynu ar eu hopsiynau gyrfa yn y dyfodol yn ogystal â'r rhai sy'n chwilio am newid gyrfa. Eleni, fe wnaethon ni gynnal ein hail weminar gyrfaoedd gyhoeddus.

Roedd Wild Future: Careers With The Wildlife Trusts yn rhoi sylw i bynciau fel yr amrywiaeth o swyddi sydd ar gael yn yr Ymddiriedolaethau Natur, rhai straeon personol gan staff nad ydynt yn ffitio i'r llwybr confensiynol i'r sector amgylchedd a chadwraeth, a rhai cynghorion pwysig ar sut i lunio cais am swydd gwych. Roedd y sesiwn hefyd yn cynnwys llawer o ffyrdd eraill y mae pobl wedi gallu cymryd rhan, fel drwy leoliadau Lefel-T, fforymau ieuenctid a mwy.

Roedd gennym ni fwy na 2,000 wedi cofrestru ar gyfer y digwyddiad o 13 o wledydd gwahanol, gan gynnwys Bermuda, Brasil, India, Mecsico a Seland Newydd.


© GAVIN DICKSON


ROSS HODDINOTT/2020VISION


© GAVIN DICKSON

## *Lefelau T*

Rhwng mis Mai 2024 a mis Medi 2025, gyda chefnogaeth gan Sefydliad Elusennol Gatsby, cynhaliodd yr Ymddiriedolaethau Natur beilot o leoliadau diwydiant mewn swyddfa ar gyfer myfyrwyr Lefel T. Mae Lefelau T yn gymwysterau ar gyfer ieuenctid 16 i 19 oed sy'n canolbwyntio ar sgiliau galwedigaethol mewn pynciau fel busnes, marchnata, digidol a chyllid.

Er bod cyfoeth o brofiad o gynnal cynlluniau hyfforddi a mathau eraill o brofiad gwaith ar draws ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Natur, cyflwynodd Lefelau T gyfle newydd ac unigryw. Ar ôl cydnabod ers tro bod angen dod yn fwy perthnasol i'r gymdeithas ehangach rydyn ni'n rhan ohoni ac yn ei hadlewyrchu, mae cyrraedd gweithlu'r dyfodol sydd ddim ar lwybr gyrfa cadwraeth traddodiadol - fel hyfforddiant rheoli tir ymarferol neu radd ecoleg - yn hanfodol.

Darparodd pedair Ymddiriedolaeth Natur fwy nag 800 o oriau lleoliad diwydiant ar gyfer myfyrwyr Lefel T; mewn Cynhyrchu, Dylunio a Datblygu Digidol yn Ymddiriedolaeth Natur Northumberland ac mewn Rheoli a Gweinyddu yn Ymddiriedolaeth Natur Swydd Berk, Swydd Buckingham a Swydd Rhydychen, Ymddiriedolaeth Natur Swydd Derby a'r elusen ganolog, Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur.

O'r dechrau un, ein blaenoriaeth ni oedd darparu profiad hygyrch ac o ansawdd uchel. Dechreuodd hyn gyda recriwtio myfyrwyr, fel rhannu cwestiynau cyfweliad ymlaen llaw a chymryd amser i ddeall diddordebau ymgeiswyr a'r sgiliau roedden nhw'n gobeithio eu datblygu. Nid oedd gwybodaeth am fyd natur yn ofyniad mynediad.

Fe wnaethon ni gwrdd â llawer o ddysgwyr ifanc disglair a heriodd ein rhagdybiaethau ni a llywio ein dealltwriaeth o'r hyn mae angen i'r Ymddiriedolaethau Natur ei weithredu i gynnig cyfleoedd gyrfa gynnar credadwy a chyfoes. Canfu gwerthusiad o'r cynllun peilot gynnydd amlwg yn hyder y myfyrwyr mewn sgiliau cyflogadwyedd hanfodol a nodwyd manteision sefydliadol gan gynnwys syniadau newydd, cyfleoedd datblygu i staff presennol a mwy o gynhwysiant. Fel yr adlewyrchodd un goruchwylydd lleoliad, mae'n debyg na fyddai eu myfyriwr Digidol "wedi dod drwy ein drysau ni o gwbl heb y lleoliad yma, ond mae'r staff yn ciwio i ddysgu am AI ganddo".

Diolch i'r cynllun peilot yma, mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur becyn adnoddau pwrpasol o ganllawiau a thempledi i alluogi lleoliadau mwy llwyddiannus yn y dyfodol, sy'n cyflawni ar gyfer myfyrwyr a sefydliadau fel ei gilydd. Mae'r dysgu'n berthnasol nid yn unig i leoliadau Lefel T, ond hefyd i flaenoriaethau strategol ehangach fel hyrwyddo recriwtio cynhwysol ac adeiladu diwylliant o berthyn.

Bydd yr heriau sy'n wynebu byd natur a'r hinsawdd dros y blynyddoedd sydd i ddod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaethau Natur arloesi'n barhaus mewn meysydd sy'n dod i'r amlwg a datblygu sgiliau newydd ar draws ein rhwydweithiau staff a gwirfoddolwyr. Mae pwysigrwydd meithrin perthnasoedd gydag addysgwyr a mentora darpar gyflogeion yn y dyfodol drwy leoliadau o bob math yn mynd i barhau yn sicr.

# Lle i dyfu

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur ar siwrnai gyda'n gilydd ac mae angen i bawb ymuno. Mae'r adroddiad yma'n bwynt adlewyrchu ar y siwrnai honno: cyfle i ni asesu ein cynnydd hyd yn hyn ac ailddatgan ein credoau a'n gweledigaeth.

Rydyn ni'n defnyddio ein Hadroddiad Amrywiaeth blynyddol fel dogfen fyw, nid terfyn ynddo'i hun. Y llynedd, nododd ein hadroddiad fod angen i ni ddadansoddi sut a phwy oedden ni'n recriwtio i'n gweithlu a bod angen i ni fod yn fwy cynhwysol. Eleni, felly, rydyn ni'n gallu adrodd ein bod ni wedi gwneud newidiadau – cynhaliwyd ein hail ddigwyddiad gyrfaoedd, mynychwyd y Big Bang Fair a chynigiwyd lleoliadau i fyfyrwyr Lefel T. Rydyn ni hefyd yn gyffrous am y potensial i'r prosiect Naturally Connected Young People gael effaith aruthrol.

Rydyn ni wedi gwneud gwelliannau. Gallwn fod yn falch o'n dull o recriwtio o ystod eang o bobl sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor efallai, neu sydd ag ystod ehangach o gyfeiriadedd rhywiol na'r cyfartaledd cenedlaethol, a gallwn fod yn falch ein bod yn cau'r bylchau cyflog.

Eto i gyd, mae mwy i'w wneud. Rhaid i ni gynnal y momentwm. Rydyn ni wedi adeiladu ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o amgylch nodau hirdymor. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, byddwn yn tyfu ein rhwydweithiau staff, gan eu cadw'n ymatebol ac yn hyblyg, a gwneud iddyn nhw weithio i adlewyrchu'r staff maen nhw'n eu cynrychioli drwy'r staff sy'n eu ffurfio. Byddwn yn dod yn fwyfwy cynrychioliadol o'r cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw, ochr yn ochr â nhw ac ar eu cyfer.

A byddwn yn parhau i feithrin ymdeimlad o berthyn o fewn yr Ymddiriedolaethau Natur. Byddwn yn dod yn ofod lle gall pawb fod y fersiwn gorau ohonyn nhw'u hunain ac yn ddidwyll.



© RACHEL BRADSHAW

The Wildlife Trusts

**Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn ffederasiwn sy'n cynnwys 46 o Ymddiriedolaethau Natur ac elusen ganolog (Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur). Mae pob un yn elusen annibynnol gyda chenhadaeth gyffredin.**

Helpwch ni i gyflawni ein gweledigaeth o 30% o'r tir a'r môr wedi'u cysylltu a'u gwarchod ar gyfer adferiad byd natur erbyn 2030.

- Ymunwch â ni fel aelod
- Cofiwch amdanom ni yn eich ewyllys
- Siaradwch dros fywyd gwyllt
- Gwirfoddolwch eich amser
- Gweithiwch gyda ni

Mwy o wybodaeth yn **wildlifetrusts.org/support-us**

## Cysylltwch â ni...


enquiries@wildlifetrusts.org
01636 677711
wildlifetrusts.org
instagram.com/thewildlifetrusts
x.com/wildlifetrusts
youtube.com/thewildlifetrusts


PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY
POSTCODE PLANET TRUST
Onvero TIDE Silver 2025


Hawlfraint © 2025 Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig 207238




© LOGAN WALKER